O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2016 Rhif 701 (Cy. 190)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Queensferry, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerddwyr) 2016

Gwnaed	*29 Mehefin 2016*
Yn dod i rym	*30 Mehefin 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw ("y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1) a 2(3) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) ("Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Mehefin 2016. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Queensferry, Sir y Flint) (Gwahardd Cerddwyr) 2016.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn –

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau hynny o'r gefnffordd yn Queensferry yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil, fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd.

Esemptiadau

4. Ni fydd dim yn erthygl 3 yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gerddwr fynd ar hyd y darnau o'r gefnffordd:

(a) pan fo hynny'n angenrheidiol i osgoi neu atal damwain neu i gael neu roi cymorth o ganlyniad i ddamwain neu argyfwng a bod y cerddwr yn gwneud hynny yn y fath fodd fel ei fod yn achosi cyn lleied o berygl neu anghyfleustra â phosibl i draffig arall ar y gefnffordd;

(b) pan fo'r cerddwr yn gwneud hynny drwy arfer ei ddyletswydd fel cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog gorfodi sifil neu fel aelod o'r gwasanaethau brys;

(c) pan fo hynny'n angenrheidiol i adfer neu symud gwrthrych sydd wedi syrthio ar y gefnffordd;

(d) pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn gwneud y canlynol yn effeithlon:

(i) cynnal a chadw, trwsio, glanhau, clirio, addasu neu wella unrhyw ran o'r gefnffordd;

(ii) symud ymaith unrhyw gerbyd oddi ar unrhyw ran o'r gefnffordd; neu

(iii) codi, gosod, rhoi, cynnal a chadw, profi, addasu, trwsio neu symud ymaith unrhyw strwythur, gwaith neu gyfarpar sydd mewn, ar, oddi tan neu dros unrhyw ran o'r gefnffordd neu sy'n ffinio â hi;

(e) pan fo hynny'n angenrheidiol mewn cysylltiad ag unrhyw arolygiad, arolwg, archwiliad neu gyfrifiad sy'n ymwneud â'r gefnffordd neu unrhyw ran ohoni ac sy'n cael ei wneud yn unol ag unrhyw awdurdod cyffredinol neu arbennig a roddir gan Weinidogion Cymru.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Mehefin 2016

Richard Morgan
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLEN

Y darn hwnnw o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A494 Cyfnewidfa Queensferry a'r droetffordd o'i chyffordd â'r A550 Cylchfan Queensferry i'r man lle y mae'n uno â phrif gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494.

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 a'r droetffordd sy'n ymestyn o'r man lle y mae'n uno â ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A494 Cyfnewidfa Queensferry hyd at bwynt 321 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Pont Reilffordd Queensferry (yn y man lle y mae'n gwyro oddi ar yr hawl dramwy gyhoeddus).